



# Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar-lein am 7 y.h. ar lau y 20<sup>fed</sup> o Dachwedd 2025

### Yn Bresennol

Iona Evans                      Cadeirydd  
Shelagh Fishlock              Ysgrifennydd  
Amanda Skull                  Trysorydd

Rhisiart ap Gwilym, Eirian Davies, John Griffith, Eurgain Jones Hywel Madog Jones, Rob Jones, Dominig Kervegant, Elen Owen, Iwan Roberts, Alan Williams, a Jackie Willmington (Ysgrifennydd Cofnodion).

### 1. GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD

Cynigiodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb Croesawodd y Cadeirydd bawb a chyfeiriodd at dywydd mawr yn Sir Benfro.

### 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Duncan Brown, Dafydd Lewis ac Elizabeth Roberts a Gwyn Roberts.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn falch o adrodd fod Liz yn llawer gwell ar ôl derbyn clun newydd.

### 3. CROESO I AELOD NEWYDD Y PWYLLGOR GWAITH

Croesawodd y Cadeirydd Rob Jones at ei gyfarfod cyntaf.

### 4. DERBYN COFNODION CYFARFODYDD Y PWYLLGOR GWAITH A GYNHALIWDYD AR FEDI 18<sup>fed</sup> A HYDREF 4<sup>ydd</sup> 2025

Cynigiodd Iwan Roberts ac eiliodd Shelagh Fishlock dderbyn cofnodion cyfarfod 18 Medi fel rhai cywir. Cynigiodd Eirian Davies ac eiliodd Hywel Madog Jones dderbyn cofnodion cyfarfod 4 Hydref.

### 5. COFNODION Y CYFARFOD BLYNNYDDOL

Derbyniwyd er gwybodaeth gofnodion Cyfarfod Blynnyddol 2025 a gynhaliwyd ar 4 Hydref.

### 6. MATERION YN CODI O'R COFNODION              dim

### 7. MATERION ARIANNOL (gweler adroddiad y Trysorydd)

Esboniodd Amanda Skull nad oedd wedi bod yn bosibl casglu'r taliadau aelodaeth drwy ddebydau uniongyrchol oherwydd problem gyda chyfrifiadur yr Ysgrifennydd Aelodaeth ond gobeithiwyd gweld cynnydd yn fuan.

Tynnwyd sylw i'r Gymdeithas dderbyn ad-daliad o £219 oddi wrth HSBC oherwydd y problemau gyda'u meddalwedd.

Dywedodd y Trysorydd fod archwilio'r cyfrifon yn mynd rhagddo a thynnodd sylw bod yr archwilywyr yn gofyn am y Dogfennau Llywodraethol. Mynegwyd y farn mai Cyfansoddiad y Gymdeithas sydd y Ddogfen Lywodraethol ond cytunodd Jackie i chwilio am wybodaeth bellach ar wefan y Comisiwn Elusennau (**pwynt gweithredol**).

Awgrymodd Hywel Madog Jones brynu gliniadur Windows i'r Trysorydd gan nad yw feddalwedd HSBC/Bottomline yn gweithio ar Mac. Awgrymodd Amanda ohirio penderfyniad gan ei bod yn gobeithio gadael HSBC a Bottomline ar ddiwedd cyfnod y cytundeb.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Ysgrifennydd ddiolch yn ffurfiol i Duncan Brown am ei rodd o £600 o enillion ei lyfr "Gwyrdd ein Byd" (**pwnt gweithredu**).

## **8. DIWEDDARIAD O RAN GWYLIAU CERDDED**

Dywedwyd bod 39 aelod wedi archebu llefydd ar gyfer Gŵyl y Gororau ym mis Mai 2026 a bod rhestr aros oherwydd na allai'r gwesty gynnig mwy na 15 ystafell sengl. Dywedodd John Griffith fod rhaglen y prif deithiau bron wedi'i chwblhau. Esboniwyd y byddai'r bws ar gael ar gyfer ymweliadau â llefydd o ddiddordeb fel dewis arall i'r teithiau cerdded. Hefyd, byddai'n bosibl i aelodau ymweld ag Amwythig ar unrhyw ddiwrnod. Dywedodd Jackie ei bod wedi sefydlu grŵp WhatsApp er mwyn hwyluso cyfathrebu â'r teithwyr.

Cadarnhawyd bod trefniadau ar gyfer taith i Lydaw ar 7-16 Mai 2027 ar y gweill. Dywedodd y byddai cost o £1,879 y pen gydag atodiad o £380 am ystafelloedd sengl. Esboniodd y byddai ffurflen archebu yng Nghylchlythyr mis Chwefror 2026 a byddai rhaid talu blaendal o £150 erbyn diwedd mis Mai. Dywedodd John Griffith ei fod wrthi'n trafod lleoedd o ddiddordeb gyda Dominig.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Trefnwyr am eu gwaith.

## **9. ADRODDIADAU'R SWYDDOGION A'R IS-BWYLLGORAU**

### **i) Is-bwyllgor Marchnata (gweler Adroddiadau)**

Dywedodd Hywel Madog ei fod yn bwriadu cynnal cyfarfod ym mis Ionawr er mwyn dechrau paratoi ar gyfer Eisteddfod y Garreg Las. Dywedodd yr ysgrifennydd fod Tegryn Jones wedi cytuno i draddodi darlith y Gymdeithas a thynnodd sylw ei bod yn hanfodol osgoi gwrthdrawiad â'r Cadeirio oherwydd bod Tegryn yn cynrychioli'r noddwyr.

Adroddodd Hywel Madog iddo gynnal trafodaeth gyda Gethin Davies ynglŷn â chyfraniad dichonol y Gymdeithas at Gynhadledd Coedydd Glaw Tymherus, gan gynnwys taith faes yn ardal Ganllwyd a phosteri gyda ffocws ar Brosiect Llên Natur yn yr arddangosfa i'w chynnal yng nghyntedd y Gynhadledd.

Dywedodd nad yw cynrychiolydd o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi cysylltu ar ôl gwyliau'r haf yn ôl yr addewid a byddai rhaid anfon e-bost i'w atgoffa.

### **ii) Is-bwyllgor Llên Natur (gweler adroddiadau)**

Dywedodd Dominig fod profion ar y wefan newydd Wagtail ar y gweill.

Rhoddodd wybod bod y grŵp newydd gyhoeddi rhifyn 212 o'r bwletin Glas a'u bod yn gweithio ar rifyn 214, rhifyn y Nadolig.

Esboniodd eu bod wedi dechrau cyhoeddi erthyglau ynglŷn ag agweddau o'r wybodaeth yn nyddiaduron Owen Edwards dros gyfnod o saith mlynedd, er bod dadansoddi'r data yn dal i fynd yn ei flaen.

Dywedodd fod ychydig o broblemau wedi codi ynglŷn â mapio cynefin Owen Edwards gan gynnwys argaeledd y feddalwedd ar ôl ymddeoliad Jon Rashid.

Tynnodd sylw at y posterï a gynhyrchwyd ar gyfer y stondin yn Eisteddfod Wrecsam.

Diolchodd y Cadeirydd i Dominig a'r tîm am eu gwaith gan ddweud bod y posterï lliwgar a llawn gwybodaeth wedi ychwanegi'n sylweddol at atyniadau'r stondin. Nododd hefyd pa mor boblogaidd oedd tudalen Weplyfr Cymuned Llên Natur.

i) Yr Ysgrifennydd Aelodaeth (gweler adroddiadau)

Dywedodd yr Ysgrifennydd fod Dafydd Lewis wedi rhoi gwybod nad oedd newid i'w adrodd. [Gweler hefyd esboniad am ddebydau uniongyrchol yn yr adroddiad ariannol.]

iv) Trefnyddion Gweithgareddau

Dywedodd Iwan nad oedd newid i'w adrodd o ran diffyg arweinwyr.

Dywedodd Hywel Madog y byddai'n trafod y gwaith o drefnu gweithgareddau yn y gogledd-orllewin gydag ychydig o aelodau gyda bwriad o ffurfio tîm yn hytrach na recriwtio un aelod i gymryd lle John Griffith. Dywedodd John na fyddai'r grŵp newydd yn dechrau gyda rhaglen wag gan ei fod wrthi'n llenwi'r rhaglen hyd at Chwefror neu Fawrth

v) Golygydd y Cylchlythyr (gweler adroddiadau)

Dywedodd yr Ysgrifennydd fod Gwyn Roberts wedi apelio am erthyglau a thynnodd sylw ei fod yn dal i chwilio am lun o eirysiau yn ymddangos drwy eira gan nad oedd y llun a gynigwyd ar Weplyfr yn bodloni'r gofynion yn gyfan gwbl,

vi) Golygydd y Naturiaethwr Dim i'w adrodd

vii) Dysgwyr (gweler adroddiad)

Tynnodd yr Ysgrifennydd sylw at y daflen ynglŷn â Chystadlaethau'r Dysgwyr a dywedodd y byddai gwybodaeth yn ymddangos yn y Cylchlythyr, y Naturiaethwr a bwletinau Llên Natur. Dywedodd Dominig ei fod yn croesawu cyfle i dynnu sylw dysgwyr at "Glas". Cytunodd Hywel Madog i uwchlwytho'r daflen i'r wefan (**pwynt gweithredu**).

Soniwyd am ariannu'r gwobrau i'w cynnig, yn ogystal ag aelodaeth am flwyddyn, a phenderfynwyd gohirio trafodaeth hyd i Shelagh ymgynghori â Golygydd y Naturiaethwr (**pwynt gweithredu**).

Dywedodd yr Ysgrifennydd fod cyfle i gyfrannu â phanel "3 Lle" ym Maes D yn Eisteddfod y Garreg Las. Awgrymwyd trafod y mater gyda Chadeirydd y Pwyllgor Marchnata. (**pwnt gweithredu**).

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn awyddus i fanteisio ar unrhyw gyfle i hysbysebu'r Gymdeithas i ddysgwyr,

## 10. POLISI TYNNU LLUNIAU A FIDEOS (gweler polisi presennol)

Esboniwyd bod John Griffith wedi derbyn cwyn am fideo a recordiwyd gyda sain. Tynnwyd sylw nad yw polisi'r Gymdeithas ynglŷn â thynnu lluniau'n cynnwys rheolau

ynglŷn â fideos. Penderfynwyd nad oedd yn angenrheidiol, nag yn ymarferol, i ofyn i bob aelod rhoi caniatâd cadarnhaol ar gyfer tynnu lluniau oherwydd bod y Gymdeithas yn cynnal digwyddiadau mewn lleoliadau cyhoeddus lle nad oes “disgwyliad rhesymol o breifatrwydd”. Serch hynny, cydnabuwyd nad yw’n amlwg i’r bobl o gwmpas pan fydd aelod yn recordio sain. Awgrymwyd y canlynol:-

- Tynnu sylw aelodau newydd bod eu cyd aelodau’n yn debygol o dynnu lluniau a allai ymddangos ar Weplyfr neu yn y Cylchgrawn
- Gofyn i aelodau beidio â thynnu lluniau’n gyfrinachol, er mwyn rhoi cyfle i bobl osgoi cael eu cynnwys.
- Gofyn i aelodau roi gwybod i’r bobl o’u cwmpas cyn recordio fideo â sain ac yn enwedig i beidio â rhoi’r fath deunydd ar Weplyfr heb ganiatâd

Cynigiodd y Cadeirydd sôn am yr uchod mewn erthygl fer yn y Cylchlythyr nesaf (**pwyt gweithredu**).

## 11. CYFARFOD BLYNYDDOL 2026

Tynnwyd sylw bod y PG wedi penderfynu peidio â chynnal cynhadledd dau ddiwrnod gyda llety yn 2026 oherwydd gostyngiad yn y nifer o fynychwyr yn y blynyddoedd diweddaf. Esboniwyd nad oedd y Trefnydd Gwyliau o blaid cynnal y Cyfarfod Blynyddol ar brynhawn Sadwrn “4/4 Mallwyd” ym mis Medi 2026 ac felly y byddai rhaid trefnu digwyddiad ar wahân.

Awgrymwyd y byddai datgysylltu’r Cyfarfod Blynyddol o daith gerdded yn osgoi presenoldeb siomedig yn achos tywydd gwael. Trafodwyd cynnal cynhadledd un dydd ar 3<sup>ydd</sup> Hydref 2026 mewn lleoliad canolog efallai gyda sgwrs yn y bore, cinio, y Cyfarfod Blynyddol ac ail sgwrs wedyn.

Cytunodd y Cadeirydd i ofyn i Liz Roberts a fyddai’n dymuno chwilio am leoliad addas (**pwyt gweithredu**).

Gofynnwyd am y posibilrwydd o ganiatáu i aelodau fynychu’r CB yn rhithiol. Tynnwyd sylw nad yw’r Cyfansoddiad yn caniatáu “pleidleisio drwy’r post neu ddulliau cyffelyb” ond na oedd cyfarfodydd rhithiol dan sylw pan luniwyd y Cyfansoddiad yn 2008.

## 12. GOHEBIAETH

- Dywedodd y Cadeirydd fod Goronwy Wyn wedi gofyn a fyddai’r Gymdeithas yn fodlon cefnogi llyfryn i’w gyhoeddi gan y Lolfa yn 2026, 300 mlywyddiant geni Thomas Pennant. Esboniwyd bod y llyfryn yn seiliedig ar restr o adar a gofnodwyd gan fechgyn ysgol 60 mlynedd yn ôl a byddai angen rhoi sylw ar y newidiadau ers hynny. Deallwyd bod Goronwy yn gofyn am ragymadrodd yn ogystal â chyfraniad ariannol. Yr oedd y PG o blaid cynnig cefnogaeth. Cytunodd y Cadeirydd i gysylltu â Goronwy gofyn am fanylion pellach (**pwyt gweithredu**).
- Dywedodd yr Ysgrifennydd fod Duncan Brown wedi derbyn e-bost oddi wrth Bethan Jones, Cyngor Llyfrau Cymru (gweler adroddiadau) yn gofyn a fyddai’r Gymdeithas yn fodlon cyfrannu at brosiect “Meithrin Natur” drwy gydweithio i greu adnoddau i blant ysgolion meithrin a theuluoedd. Cytunodd y Cadeirydd i roi ystyriaeth bellach i’r e-bost (**pwyt gweithredu**).

### 13. UNRHYW FATER ARALL

- i) Dywedodd John Griffith ei fod wedi cysylltu â'r RSPB ynglŷn â chyflwyno enwau Cymraeg i'r ap Merlin a'i fod yn bwriadu cysylltu â'r BTO. Awgrymwyd cysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg. O ran PI@ntNet dywedodd John fod y gwaith o gyfieithu enwau'n mynd yn ei blaen ond tynnodd sylw at anghysondebau rhwng enwau Lladin ym masau data PI@ntNet a Llên Natur.

Diolchodd y Cadeirydd i John am ei ymdrechion.

- ii) Gofynnodd y Cadeirydd a oedd bwriad o gynnal taith i gofnodi planhigion yn eu blodau dros y Flwyddyn Newydd yn ôl cynllun y Botanic Society of Britain and Ireland. Cadarnhaodd Iwan Roberts ei fod yn gobeithio cynnal y fath ddigwyddiad.
- iii) Dywedodd Jackie fod Trefnydd y Cwrs Haf Dywys Cymraeg, i'w gynnal ym Mhrifysgol Aberystwyth ym mis Gorffennol 2026, wedi gofyn am siaradwr i roi sgwrs i'r grŵp "Cymraeg Proffesiynol" ar unrhyw agwedd o fyd natur. Awgrymodd y Cadeirydd gytuno yn ddamcaniaethol oherwydd bod y fath ddigwyddiadau o gymorth wrth hysbysebu'r Gymdeithas i gynulleidfa newydd.

### 14. DYDDIADAU CYFARFOYDD 2026 (i'w gynnal yn rhithiol)

19<sup>eg</sup> Chwefror

21<sup>ain</sup> Mai

17<sup>eg</sup> Medi

17<sup>eg</sup> Tachwedd

Ymddiheurodd y Cadeirydd fod ambell broblem dechnegol wedi effeithio ar y cyfarfod a diolchodd i'r aelodau'r PG am eu hamynedd.